



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

## Teitl y cynnig:

*Canllawiau Statudol i Awdurdodau Lleol ar gyfer Addysg yn y Cartref a Llawlyfr i Addysgwyr yn y Cartref*

## Adran:

*Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus*

## Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:

*Y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams AC*

## Dyddiad Dechrau:

*Gorffennaf 2018*

## Cyfeiriad cyswllt e-bost:

*wellbeingshare@gov.wales*

# Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

## Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu llunio rheoliadau drafft i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal a phoblogi cronfa ddata i'w chynorthwyo i nodi plant nad ydynt ar gofrestr unrhyw ysgol a gynhelir, mewn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS), ar gofrestr ysgol annibynnol, nac yn derbyn addysg addas.

Nod y rheoliadau yw helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc yng Nghymru yn derbyn addysg addas yn unol ag Erthygl 28 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac Erthygl 2 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Drwy wneud hyn, mae Llywodraeth Cymru yn atgyfnerthu ei hymrwymiad i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yn derbyn addysg sy'n rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth iddynt er mwyn cyflawni eu potensial. Byddwn yn ymgynghori ar y rheoliadau ar wahân yn y misoedd i ddod.

Datblygwyd canllawiau statudol er mwyn cefnogi awdurdodau lleol i nodi plant a phobl ifanc nad ydynt ar gofrestr ysgol a gynhelir, nad ydynt mewn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS), nad ydynt ar gofrestr ysgol annibynnol ac nad ydynt yn derbyn addysg addas. Er nad yw'r dyletswyddau'n newydd, mae'r canllawiau'n atgyfnerthu'r gofyniad i awdurdodau lleol sicrhau bod pob plentyn yn eu hardal yn derbyn addysg addas.

Yn ogystal, datblygwyd Llawlyfr i Deuluoedd sy'n Addysgu yn y Cartref sy'n rhoi cyngor i'r rhai sy'n addysgu eu plant yn y cartref neu sy'n bwriadu gwneud hynny, ac yn eu cyfeirio at wasanaethau.

---

Mae dyletswydd ar rieni i sicrhau bod plentyn o oedran addysg orfodol yn cael addysg amser llawn effeithlon, sy'n addas ar gyfer oedran a gallu'r plentyn ac unrhyw anghenion arbennig sydd gan y plentyn<sup>1</sup>. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n dewis caniatáu i'w plant gael eu haddysgu yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae rhai rheini'n dewis addysgu eu plant yn y cartref.

Mae Llywodraeth Cymru yn parchu penderfyniad rhai rhieni i addysgu eu plant yn y cartref, ond rhaid cydbwysu'r dewis hwn â hawl plant i dderbyn addysg addas.

O dan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996<sup>2</sup>, mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i nodi plant yn eu hardaloedd sydd o oedran addysg orfodol ac nad ydynt yn derbyn addysg addas, ac i ymyrryd os yw'n ymddangos bod hynny'n wir.

Mae'r ddyletswydd ar yr ysgol, yn hytrach na'r rhiant, i hysbysu awdurdodau lleol am

---

<sup>1</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1996/56/section/7>

<sup>2</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1996/56/section/436A>

y penderfyniad i addysgu yn y cartref, os yw plentyn wedi cael ei gofrestru mewn ysgol a gynhelir. O ganlyniad, mae'n anodd nodi plant a addysgir yn y cartref pan fydd rhieni yn dewis addysgu eu plentyn cyn gynted ag y bydd yn cyrraedd oedran addysg orfodol, am na chafodd y plentyn erioed ei gofrestru ar gofrestr ysgol, neu pan fydd teuluoedd yn symud o un awdurdod lleol i'r llall.

Ategir y cynigion hyn gan yr amcan cyffredinol o sicrhau hawl plentyn i ddatblygu drwy addysg fel yr amlinellir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)<sup>3</sup>. Yn ogystal, i'r plant hynny sy'n gweld gweithwyr proffesiynol, gall fod budd ychwanegol o ran diogelu.

Mae awdurdodau lleol o'r farn y bydd atgyfnerthu'r fframwaith deddfwriaethol presennol â chanllawiau statudol yn cryfhau eu gallu i gyflawni eu dyletswydd gyfreithiol. Mae hyn yn cynnwys prosesau ar gyfer nodi plant nad ydynt ar gofrestr ysgol, asesu'r addysg y maent yn ei derbyn, a chymryd camau os bydd angen pan na ddarparwyd addysg addas.

Ym mis Ionawr 2018, ymrwymodd y Gweinidog Addysg i ddefnyddio pwerau presennol o dan adran 29 o Ddeddf Plant 2004<sup>4</sup> i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu cronfa ddata i'w cynorthwyo i nodi plant nad ydynt yn derbyn addysg addas<sup>5</sup>. Caiff y rheoliadau eu datblygu ac ymgynghorir arnynt ar wahân.

Mae'n ofynnol hefyd i Weinidogion Cymru roi ystyriaeth briodol i CCUHP wrth arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau<sup>6</sup> fel y nodwyd ym Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011<sup>7</sup>.

Yn ogystal, datblygwyd canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol o dan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996 er mwyn cefnogi awdurdodau lleol i sicrhau bod plant a addysgir yn y cartref yn derbyn addysg addas.

Bydd y canllawiau statudol yn helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswydd i sicrhau bod plant yn derbyn addysg addas. Yn ogystal â rhoi eglurhad ar nodweddion addysg addas, mae'r canllawiau statudol yn atgyfnerthu'r pwerau sydd ar gael i awdurdodau lleol eu defnyddio pan na ddarperir addysg addas. Pan na cheir gwybodaeth gadarn am addysg plentyn/plant, bydd yr awdurdod lleol yn rhagdybio nad yw'r plentyn/plant yn derbyn addysg addas oni cheir tystiolaeth i'r gwrthwyneb. Mae'r canllawiau statudol hefyd yn rhoi eglurhad o ran y cymorth y gallai awdurdodau lleol ei gynnig i addysgwyr yn y cartref yn eu hardaloedd.

Lluniwyd llawlyfr i addysgwyr yn y cartref hefyd er mwyn cefnogi rhieni i gael gafael ar wasanaethau cyffredinol a phenodol a fydd yn cefnogi addysg a llesiant y plentyn

---

<sup>3</sup> [http://www.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2010/05/UNCRC\\_summary-1.pdf](http://www.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2010/05/UNCRC_summary-1.pdf)

<sup>4</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2004/31/section/29>

<sup>5</sup> <https://llyw.cymru/datganiad-llafar-diogelur-hawl-i-addysg-addas-i-bob-plentyn>

<sup>6</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/2/contents>

<sup>7</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/2/contents>

a'r rhiant.

O ganlyniad i'r cynigion hyn, gall rhai rhieni wynebu ymholiadau gan awdurdodau lleol na fyddant wedi'u hwynebu yn y gorffennol ac efallai y byddant yn ystyried bod hyn yn ymyrryd yn eu bywyd teuluol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod budd ehangach y dull gweithredu hwn yn rhesymol o ran addysg a lles cyffredinol plant a addysgir yn y cartref. Y canlyniadau tymor hwy i blant nad ydynt yn derbyn addysg addas yw y bydd y person ifanc yn annhebygol o ennill cymwysterau cydnabyddedig yn ddiweddarach yn ei fywyd, y bydd yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i waith ac y bydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

## Hirdymor

Dengys ffigurau diweddaraf y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ar gyfer 2017/18<sup>8</sup> fod awdurdodau lleol yn gwybod am 1,964 o blant a addysgir yn y cartref. Mae hyn yn gynydd o 240 ar y ffigur ar gyfer 2016/17. Dengys y data hyn gan CYBLD fod y niferoedd yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Cyhoeddodd y Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE) adroddiad yn 2017<sup>9</sup> a awgrymodd fod nifer wirioneddol y plant a addysgir yn y cartref rhwng 2,000 a 3,000, gan gydnabod hefyd fod y nifer hon yn cynyddu. Mae'r boblogaeth a addysgir yn y cartref yn amrywiol ac mae'r rhesymau dros addysgu plant yn y cartref yn cynnwys y canlynol: credoau ideolegol, diwylliant, crefydd, addysgegau, iechyd, anghenion addysgol arbennig, bwlio, neu ffactorau sy'n seiliedig ar ysgolion megis y pellter i'r ysgol neu anfodlonrwydd â'r addysgu.

Nid yw'r polisi hwn ar ei ben ei hun ac mae'n rhan o gyd-destun ehangach diwygio addysg fel y nodir yn *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl*<sup>10</sup> – cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-21 – sy'n nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen i wireddu ein huchelgais o sicrhau bod gan blant a phobl ifanc yng Nghymru y sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid. Er bod cenhadaeth ein cenedl yn nodi sut y bydd y system ysgolion yng Nghymru yn symud yn ei blaen dros y pedair blynedd nesaf, dylai'r egwyddorion o ddarparu'r cymorth angenrheidiol i blant mewn ysgolion – a'r hawl i bob plentyn dderbyn addysg – fod yr un mor gymwys i'r rhai a gaiff eu haddysgu yn y cartref.

Ar ben hynny, bwriad y cynnig polisi hwn yw cefnogi teuluoedd ac awdurdodau lleol i sicrhau y darperir addysg effeithlon ac addas i bob plentyn. Mae'n ceisio pontio'r gydberthynas rhwng gweithwyr proffesiynol a theuluoedd i sicrhau y cefnogir pob plentyn i gyflawni ei botensial.

## Atal

Gall y canlyniadau i blant os nad ydynt yn derbyn addysg addas neu os nad ydynt yn derbyn addysg o gwbl olygu y bydd y person ifanc yn annhebygol o ennill

---

<sup>8</sup> <https://gweddill.gov.wales/statistics-and-research/pupils-educated-other-than-school/?skip=1&lang=cy>

<sup>9</sup> [http://bwrdddiogelu.cymru/2017/11/23/home-education-children-report-2/?noredirect=cy\\_GB](http://bwrdddiogelu.cymru/2017/11/23/home-education-children-report-2/?noredirect=cy_GB)

<sup>10</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/addysg-yng-nghymru-cenhadaeth-ein-cenedl.pdf>

cymwysterau cydnabyddedig yn ddiweddarach yn ei fywyd, y bydd yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i waith ac y bydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Mae'n ofynnol i rieni sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn addysg amser llawn effeithlon ac addas o dan adran 7 o Ddeddf Addysg 1996, yn ogystal â bod hawl o dan CCUHP, a bydd yn helpu i sicrhau bod plant yn datblygu ac yn cyrraedd eu potensial llawn, ac yn lleihau'r posibilrwydd na fyddant mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

### **Integreiddio**

Mae *Ffyniant i Bawb*: y strategaeth genedlaethol yn nodi ein cenhadaeth ganolog i greu Cymru ffyniannus sydd o fudd i bawb. Ein nod hirdymor yw adeiladu Cymru sy'n ffyniannus a diogel; sy'n iach ac egniol; sy'n uchelgeisiol ac yn dysgu, ac sy'n unedig a chysylltiedig. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, nododd Llywodraeth Cymru 12 o amcanion llesiant a oedd yn amlinellu ble y gallwn wneud y cyfraniad mwyaf at y Nodau Llesiant Cenedlaethol, gan roi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth wraidd ein penderfyniadau.

Mae'r cynigion polisi hyn yn cefnogi'r nod o greu Cymru fwy cyfartal, cymdeithas sy'n galluogi plant a phobl ifanc i arfer eu hawliau a chyflawni eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys cefndir ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol).

### **Ffyniant i Bawb**

Ysgogir y cynigion hyn gan yr angen i gefnogi hawl plant i addysg a sicrhau eu bod nhw, a'u rhieni, yn cael eu grymuso a'u bod yn teimlo'n gyfforddus wrth ddefnyddio gwasanaethau cyffredinol a phenodol sydd â'r nod o gefnogi eu llesiant.

Bydd sicrhau bod plant a addysgir yn y cartref yn derbyn addysg addas a rhoi'r arweiniad sydd ei angen i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau y rhoddir y ddarpariaeth hon ar waith yn cefnogi:

- plant i dderbyn eu hawl gyfreithlon i addysg yn unol ag Adran 7 o Ddeddf Addysg 1996<sup>11</sup>;
- plant i ddatblygu a chyflawni eu huchelgeisiau;
- proses well o gyfeirio at ymyriadau gwella iechyd a gwasanaethau cyffredinol eraill.

### **Cydweithredu**

Ymhlith y partneriaid â diddordeb cyffredin yn y cynnig hwn mae awdurdodau lleol, rhieni ac addysgwyr yn y cartref, a sefydliadau sy'n gyfrifol am blant a phobl ifanc.

Wrth baratoi i ddatblygu canllawiau statudol, ymwelodd swyddogion â phob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru i edrych ar arferion gwaith a dulliau gweithredu ymarferol presennol. Yn ogystal, rydym wedi gweithio'n agos gyda grŵp rhanddeiliaid awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i edrych ar y rhesymau dros addysg yn y cartref a'r tueddiadau/patrymau ledled Cymru er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu'r canllawiau yn well. Mae swyddogion hefyd wedi cyfarfod

---

<sup>11</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1996/56/section/7>

ag addysgwyr yn y cartref mewn grwpiau ac yn unigol er mwyn trafod y cynigion. Yn ogystal, cynhelir ymgynghoriad ffurfiol yn 2019 a fydd yn cynnwys rhanddeiliaid perthnasol yn ogystal â phlant a phobl ifanc.

Dechreuodd ymgyrch Twitter â'r nod o ymgysylltu ag addysgwyr yn y cartref ar 27 Tachwedd a bydd yn para tan ddiwedd y cyfnod ymgynghori ffurfiol y flwyddyn nesaf.

## **Cymryd Rhan**

Wrth ddatblygu'r canllawiau, cafwyd gwaith ymgysylltu ymlaen llaw ar ffurf sawl cyfarfod â Chomisiynydd Plant Cymru, sydd â diddordeb penodol yn y polisi hwn. Ar ben hynny, rhannwyd y dogfennau drafft â'r Comisiynydd ac ymgorfforwyd ei sylwadau lle y bo'n briodol er mwyn rhoi sicrwydd iddi fod ei thri phrawf wedi'u hystyried, h.y.

- **Sicrhau bod dim plentyn yng Nghymru yn byw yn anweledig o wasanaethau a chymdeithas yn gyffredinol.**
- **Bod pob plentyn yn cael addysg addas, a bod ganddo fynediad i'w hawliau dynol, gan gynnwys gofal iechyd a diogelwch.**
- **Dylai pob plentyn gael y cyfle i fynegi ei farn ac i rannu ei brofiadau am ei addysg.**

Yn ogystal, mae gweithgor mewnol o swyddogion o bob rhan o Lywodraeth Cymru wedi goruchwyllo'r broses o ddatblygu'r canllawiau a'r llawlyfr, a'r rheoliadau drafft.

Cynhelir ymgynghoriad ffurfiol 12 wythnos o 29 Gorffennaf 2019 tan 21 Hydref 2019.

## **Effaith**

Nid yw'r cynigion hyn yn rhoi pwerau newydd i awdurdodau lleol; yn hytrach na hynny, bydd y canllawiau statudol newydd yn egluro pa bwerau presennol sydd ar gael i awdurdodau lleol a byddant yn atgyfnerthu'r disgwyliad y dylid defnyddio'r pwerau hyn yn briodol er mwyn sicrhau bod plant a addysgir yn y cartref yn derbyn addysg addas.

Ar ben hynny, datblygwyd y Llawlyfr i Addysgwyr yn y Cartref ochr yn ochr â'r canllawiau er mwyn cryfhau'r cymorth a'r cyngor i'r rhieni hynny sy'n addysgu eu plant yn y cartref ar hyn o bryd neu sy'n ystyried gwneud hynny a'u cyfeirio at wasanaethau cyffredinol a phenodol.

Mae'r prif ddadleuon o blaid bwrw ymlaen â'r cynnig hwn fel a ganlyn:

- Bydd yn helpu rhieni i wneud dewisiadau gwybodus am addysg eu plentyn/plant; a sicrhau, petaent yn addysgu yn y cartref, fod y systemau ar waith i gefnogi addysg y plentyn hwnnw/plant hynny a bod gwasanaethau cyffredinol ar gael yn ehangach;
- Bydd yn helpu i gryfhau'r polisi presennol, rhoi canllawiau clir i awdurdodau lleol a sicrhau cysondeb ledled Cymru;
- Bydd yn helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu a gweithredu polisi i gefnogi teuluoedd sy'n addysgu eu plant yn y cartref neu sy'n ystyried gwneud hynny;
- Bydd yn helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswydd statudol i nodi plant nad ydynt yn derbyn addysg addas a chymryd unrhyw gamau adfer fel y bo'n

briodol, e.e. rhoi cefnogaeth ychwanegol neu gyflwyno gorchymyn mynychu'r ysgol.

- Byddai'r cynnig hwn yn helpu i gefnogi hawl plentyn i addysg, i ddatblygu'n iach, i gael ei glywed ac i fod yn ddiogel.

Mae anfanteision cydnabyddedig bwrw ymlaen â'r cynnig hwn fel a ganlyn:

- Gall awdurdodau lleol ymateb yn negyddol i'r cynigion am eu bod yn ei gwneud yn ofynnol iddyn nhw, yn hytrach na'r rhieni, nodi plant a addysgir yn y cartref.
- Ni fydd rhai addysgwyr yn y cartref yn croesawu'r cynnig hwn.
- Mae'r elfen asesu'n debygol o gynyddu'r costau i awdurdodau lleol.

### **Costau ac Arbedion**

#### **DADANSODDIAD COST A BUDD**

- ♦ Cwblheir Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dilyn yr ymgynghoriad

### **Systemau**

Y cynnig yw cyhoeddi canllawiau statudol i awdurdodau lleol er mwyn atgyfnerthu eu dyletswyddau statudol presennol i sicrhau bod yr holl blant sy'n byw yn eu hardal yn cael eu nodi ac yn derbyn addysg addas, a nodi disgwyliadau i awdurdodau lleol ar asesu addasrwydd yr addysg y mae plant a phobl ifanc a addysgir yn y cartref yn ei derbyn.

## **Casgliad**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod hawl rhieni i addysgu eu plant yn y cartref ond, yn yr un modd, mae'n cydnabod bod yn rhaid cydbwysu hyn â hawl plentyn i addysg. Cyn belled ag y bo'n ymarferol, bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi rhieni sy'n ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn, gan roi systemau ar waith i alluogi awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau. Yn y pen draw, mae methu â darparu addysg yn anghydnaws â CCUHP y mae Cymru wedi'i lofnodi.

Ystyriwyd cydraddoldeb a hawliau dynol drwy'r holl broses o ddatblygu'r polisi hwn. Nod y polisi yw sicrhau y caiff awdurdod lleol gymorth i gyflawni ei swyddogaethau er mwyn canfod p'un a yw plant yn ei ardal yn derbyn addysg addas ai peidio. Dylai'r cynigion, sy'n cynnwys cynnig cymorth i blant a addysgir yn y cartref a theuluoedd, helpu plant i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod hwn yn ddull cymesur a rhesymol o sicrhau cyfle cyfartal rhwng y sawl a addysgir yn y cartref a'r sawl nad addysgir yn y cartref.

### **7.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?**

Yr effeithiau mwyaf arwyddocaol yw'r rhai ar y rhiant a'r awdurdod lleol, ond dylid nodi nad yw cyfrifoldebau'r ddwy ochr i sicrhau bod y plentyn yn derbyn addysg amser llawn effeithlon wedi newid.

Bwriad y cynigion yw llunio dull gweithredu rhesymol, cymesur a chyson ledled Cymru, a sicrhau y cyflawnir hawliau pob plentyn i addysg. Mae budd cysylltiedig o ran cefnogi'r gallu i ddefnyddio gwasanaethau cyffredinol a phenodol sy'n ymestyn y tu hwnt i gylch gwaith addysg, h.y. iechyd.

Y brif effaith negyddol yw y gall rhai pobl sy'n addysgu eu plant yn y cartref deimlo bod ymyrraeth ar fywyd preifat eu teuluoedd. Fodd bynnag, cymerir pob mesur ymarferol i sicrhau na fydd y canfyddiad hwn yn cael ei wireddu ac y bydd cydberthynas gadarnhaol ac adeiladol yn cael ei meithrin rhwng awdurdodau lleol a theuluoedd sy'n canolbwyntio ar fudd pennaf y plentyn.

### **7.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol* yn nodi ein cenhadaeth ganolog i greu Cymru ffyniannus sydd o fudd i bawb. Ein nod hirdymor yw adeiladu Cymru sy'n ffyniannus a diogel; sy'n iach ac egniol; sy'n uchelgeisiol ac yn dysgu, ac sy'n unedig a chysylltiedig. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, nododd Llywodraeth Cymru 12 o amcanion llesiant a oedd yn amlinellu ble y gallwn wneud y cyfraniad mwyaf at y Nodau Llesiant Cenedlaethol, gan roi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth wraidd ein penderfyniadau.

Mae'r cynigion polisi hyn yn cefnogi'r nod o greu Cymru fwy cyfartal, cymdeithas sy'n galluogi plant a phobl ifanc i arfer eu hawliau a chyflawni eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys cefndir ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol).

### **7.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

Ni fwriedir cynnal unrhyw werthusiad ffurfiol, ond caiff y broses o roi'r polisi ar waith ei monitro drwy ddeialog barhaus ag awdurdodau lleol, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, consortia addysg rhanbarthol, ysgolion a chymunedau.



### 1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc.

**Diben sylfaenol y cynnig hwn yw sicrhau y cydymffurfir â hawliau plant ac, wrth wneud hynny, sicrhau bod plant o oedran addysg orfodol yn derbyn addysg addas.**

Mae Llywodraeth Cymru, yn gywir ddigon, yn falch o'n hanes o hyrwyddo hawliau plant a gweithio i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Ein huchelgais yw sicrhau bod hawliau pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yn cael eu hyrwyddo a'u parchu er mwyn eu galluogi i wireddu eu potensial. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gan blant yr hawl i addysg ac y dylai taith addysgol plentyn fod yn un o adegau mwyaf cyfoethogol a boddhaol ei fywyd, yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae gan bob plentyn hawl i addysg sy'n datblygu ei bersonoliaeth, ei dalentau a'i alluoedd meddyliol a chorfforol i'r eithaf. Rhaid darparu addysg o'r fath mewn ffordd sy'n parchu urddas gynhenid y plentyn ac yn galluogi'r plentyn i fynegi ei farn yn rhydd yn unol ag erthygl 12 (1)<sup>12</sup>.

#### **Effeithiau Cadarnhaol ar Blant a Phobl Ifanc**

- **sicrhau bod pob plentyn yn arfer ei hawl i gael addysg addas**
- **cefnogi addysgwyr yn y cartref i gael gafael ar gymorth a chefnogaeth gan awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus eraill**
- **galluogi awdurdodau lleol i ystyried barn y plentyn/plant**
- **cefnogi amcanion y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) pan gaiff ei ddeddfu (Medi 2020), a fydd yn cynnwys sicrhau bod plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael darpariaeth ddigonol i ddiwallu'r anghenion hynny, heb ystyried ble y cânt eu haddysgu, gan gynnwys yn y cartref.**

Bydd gweld y plentyn i drafod ei ddarpariaeth addysg yn cefnogi nifer o'i hawliau, ochr yn ochr â'i hawl i addysg ac i wireddu ei potensial, gan gynnwys ei hawl i fynegi farn ac i gael gwybodaeth briodol er mwyn gwneud dewisiadau deallus, i gael darpariaeth, i chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, ac i gael ei gadw'n ddiogel.

#### **Effeithiau Negyddol Posibl**

Rydym yn cydnabod, o ganlyniad i'r canllawiau statudol, y gallai defnydd

---

<sup>12</sup> Sylw Cyffredinol Rhif 1 Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn, "The aims of education" [https://www.ohchr.org/EN/Issues/Education/Training/Compilation/Pages/a\)GeneralCommentNo1TheAimsofEducation\(article29\)\(2001\).aspx](https://www.ohchr.org/EN/Issues/Education/Training/Compilation/Pages/a)GeneralCommentNo1TheAimsofEducation(article29)(2001).aspx)

awdurdodau lleol o orchmynion mynychu'r ysgol gynyddu. Mewn achosion eithafol, gall rhieni sy'n methu â sicrhau bod eu plentyn yn derbyn addysg addas a/neu'n methu â chydymffurfio â gorchymyn mynychu'r ysgol gael eu herlyn.

Bydd y ffordd y mae plentyn yn ymateb i'r posibilrwydd y caiff ei riant ei gollfarnu yn dibynnu ar ei amgylchiadau unigol, gan gynnwys oedran y plentyn a'i allu gwybyddol. Fodd bynnag, mae'n rhesymol rhagdybio y bydd yn brofiad cythryblus i unrhyw blentyn neu berson ifanc.

Rhaid i ni hefyd ystyried yr achosion eithafol lle y gall erlyniad effeithio ar gyflogaeth neu gyflogadwyedd rhiant. Os bydd rhiant yn colli ei swydd o ganlyniad i dorri'r gyfraith, mae'n debygol o gael effaith ddifrifol ar incwm y teulu hwnnw, yn enwedig os mai'r rhiant dan sylw yw'r unig un sy'n ennill cyflog. Mae hyn, yn ei dro, yn debygol o gael effaith negyddol ar y plentyn neu'r plant dan sylw, yn ariannol, yn gymdeithasol ac yn emosiynol.

Mae'n bosibl y bydd y dull gweithredu arfaethedig hwn yn destun beirniadaeth gan randdeiliaid penodol am beidio â gosod dyletswydd ar rieni i gofrestru'r ffaith eu bod yn addysgu eu plant yn y cartref gyda'r awdurdod lleol. Rydym yn credu bod gosod y ddyletswydd hon ar rieni – y bydd rhai ohonynt eisoes wedi ymddieithio o'r wladwriaeth – yn annhebygol o gymell pob un ohonynt i gofrestru â'r awdurdod lleol. Mae hefyd risg y caiff y dull gweithredu hwn ac, yn fwy penodol, y rheoliadau a/neu'r canllawiau statudol eu herio yn y llysoedd drwy adolygiad barnwrol. Mae swyddogion yn gweithio i liniaru'r risgiau cyfreithiol a'r risgiau o ran diogelu data sy'n gysylltiedig â'r gronfa ddata a'r canllawiau statudol.

## **2. Eglurwch sut mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant.**

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi cael ei ddatblygu i sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i Hawliau Plant wrth i benderfyniadau gweinidogol gael eu gwneud am y canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol yn ogystal â'r Llawlyfr i Addysgwyr yn y Cartref.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i CCUHP fel sail ar gyfer ei holl benderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc, fel y nodwyd ym Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

Addysg yng Nghymru: Mae Cenhadaeth ein Cenedl<sup>13</sup> yn nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen i wireddu ein huchelgais o sicrhau bod gan blant a phobl ifanc yng Nghymru y sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid. Er bod y cynllun gweithredu'n nodi sut y bydd y system ysgolion yng Nghymru yn symud yn ei blaen dros y pedair blynedd nesaf, dylai egwyddorion darparu'r cymorth angenrheidiol i blant mewn ysgolion fod yr un mor berthnasol i'r rheini a gaiff eu haddysgu yn y cartref. Yn gysylltiedig â hyn y mae hawliau diymwad plant o dan CCUHP, gan gynnwys yr hawl i addysg ac i ddatblygu yn unol â'r Erthyglau isod:

---

<sup>13</sup> <https://lyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/addysg-yng-nghymru-cenhadaeth-ein-cenedl.pdf>

<b>Erthygl 1</b>	Mae gan bawb dan 18 oed yr holl hawliau sydd yn y Confensiwn.
<b>Erthygl 2</b>	Mae'r Confensiwn yn gymwys i bawb, beth bynnag fo'i hil, crefydd, galluoedd, beth bynnag a feddylia neu a ddywed a pha fath bynnag o deulu y daw ohono.
<b>Erthygl 3</b>	Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio tuag at yr hyn sydd orau i bob plentyn.
<b>Erthygl 4</b>	Dylai llywodraethau sicrhau bod yr hawliau hyn ar gael i blant.
<b>Erthygl 5</b>	Dylai llywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau teuluoedd i gyfarwyddo ac arwain eu plant fel eu bod, wrth dyfu, yn dysgu sut i ddefnyddio eu hawliau'n briodol.
<b>Erthygl 6</b>	Mae gan bob plentyn yr hawl i ddatblygu.
<b>Erthygl 12</b>	Mae gan blant yr hawl i roi eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i'w barn gael ei hystyried.
<b>Erthygl 16</b>	Mae gan blant yr hawl i breifatrwydd. Dylai'r gyfraith eu diogelu rhag ymosodiadau ar eu ffordd o fyw, eu henw da, eu teuluoedd a'u cartrefi.
<b>Erthygl 18</b>	Dylai'r ddau riant rannu cyfrifoldeb dros fagu eu plant, a dylent ystyried yr hyn sydd orau i bob plentyn bob amser.
<b>Erthygl 28</b>	Mae gan blant yr hawl i addysg.
<b>Erthygl 29</b>	Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a thalentau'r plentyn yn llawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni a'u diwylliant eu hunain a diwylliant pobl eraill.
<b>Erthygl 30</b>	Mae gan blant yr hawl i ddysgu a defnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd, heb ystyried p'un a yw'r rhain yn cael eu rhannu gan fwyafrif y bobl yn eu gwlad ai peidio.

Bydd y canllawiau statudol yn helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswydd o dan Adran 436A o Ddeddf Addysg 1996. Hon yw'r ddyletswydd i wneud trefniadau i nodi plant yn eu hardal sydd o oedran addysg orfodol ac nad ydynt yn derbyn addysg addas, ac ymyrryd os yw'n ymddangos bod hynny'n wir.

Mae'r Llawlyfr i Addysgwyr yn y Cartref yn amlinellu pecyn cymorth addysgol arfaethedig i blant a addysgir yn y cartref. Mae hyn yn cynnwys datblygu tudalen addysg yn y cartref ar lwyfan dysgu digidol Cymru, Hwb, help i gofrestru ar gyfer arholiadau, gwybodaeth am gael gafael ar wasanaethau cyffredinol a'r cymorth a gynnigir gan Gyrfa Cymru, heb fod yn gyfyngedig i'r rhain. Caiff nifer o wasanaethau

iechyd, gofal a chymorth cyffredinol a gwasanaethau ieuenctid eu hwyluso drwy ysgolion, sy'n golygu nad yw rhai plant a addysgir yn y cartref a'u teuluoedd yn ymwybodol o'u hawliau a'u bod yn colli'r cyfle i fanteisio ar fentrau a gwasanaethau allweddol o bosibl.

### **Erthyglau CCUHP**

Erthyglu 1-5: mae Llywodraeth Cymru yn dilyn yr erthyglau hyn wrth fwrw ymlaen â'r cynigion hyn.

Mae'r Pwyllgor ar y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn wedi nodi y dylai "yr hyn sydd orau" (Erthygl 3) i'r plentyn fod yn un o'r prif ystyriaethau ym mhob cam gweithredu sy'n ymwneud â phlant. Mae'r Confensiwn hefyd yn nodi yn Erthygl 18 mai'r hyn sydd orau i'r plentyn fydd ystyriaeth sylfaenol rhieni.

Mae Erthygl 28 o'r Confensiwn yn nodi bod gan bob plentyn yr hawl i addysg. Mae Erthygl 29 yn ategu hyn, gan nodi y dylai addysg ddatblygu personoliaeth a thalentau'r plentyn yn llawn. Mae'r hawliau hyn yn ategu Erthygl 6 yn llawn, sy'n rhoi'r hawl i blant ddatblygu. Os nad yw plant yn derbyn addysg addas neu unrhyw addysg o gwbl, mae'r canlyniadau posibl yn ddiweddarach yn eu bywyd yn cynnwys peidio ag ennill cymwysterau cydnabyddedig ac anawsterau wrth ddod o hyd i waith. Bydd sicrhau bod plant a phobl ifanc yn arfer eu hawl i addysg addas yn helpu i sicrhau eu bod yn gwireddu eu potensial llawn.

Drwy gyflwyno rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu cronfa ddata a thrwy gyhoeddi canllawiau statudol ar y cyd â chynnig cymorth addysgol i rieni, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi Erthygl 4 ar waith yn uniongyrchol, sy'n galw ar wladwriaethau i "ymgyrdd â phob mesur deddfwriaethol a gweinyddol sy'n briodol a phob mesur arall ar gyfer gweithredu'r hawliau a gydnabyddir yn y Confensiwn presennol."

Bydd cyflwyno'r cynigion hyn hefyd yn rhoi llwyfan i ddilyn Erthyglau 12, 19 a 24 pan fydd awdurdodau lleol yn bodloni eu gofynion.

Mae Erthyglau 41 a 42 yn ymwneud â'r ddarpariaeth statudol bresennol a hyrwyddo'r Confensiwn a bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio tuag atynt mewn perthynas â'r cynigion.

Wrth ddatblygu'r cynigion hyn, bydd swyddogion yn parhau i fod yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod y Llywodraeth, cyn belled ag y bo modd, yn cefnogi CCUHP.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd yn her cydbwysu hawliau'r plentyn â dewis rhieni i addysgu yn y cartref, a sicrhau nad ydym yn amharu ar ryddid rhieni i wneud penderfyniadau am yr hyn sydd, yn eu barn nhw, yn ddewisiadau dilys i'w plant. Er y gall rhai rhieni ddadlau y bydd y dull gweithredu hwn yn amharu ar breifatrwydd teuluoedd, cred Llywodraeth Cymru fod y cyfrifoldeb i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn addysg addas ac yn cael y cyfle i ddatblygu hyd eithaf eu gallu, cael addysg dda, bod yn ddiogel ac yn hapus, mwynhau lefelau uchel o les a datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i chwarae rôl weithredol yn eu cymunedau a'r gymdeithas yn ehangach, yn drech na hynny.


## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

*Cymraeg 2050* yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru yn llwyr ymroddedig i'r strategaeth newydd, gyda tharged o filiwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu *Symud Cymru Ymlaen* ac yn *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol*. Mae iaith Gymraeg ffyniannus hefyd yn cael ei chynnwys fel un o'r 7 nod llesiant yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gennym hefyd rwymedigaeth strategol i ystyried effaith lawn ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut y mae ein polisiau yn effeithio ar yr iaith a'r rheini sy'n ei siarad.

Mae tair thema i *Cymraeg 2050*



Mae'r penawdau o dan bob thema yn amlinellu'r gweithgareddau sy'n gallu effeithio ar yr iaith.

Yn gyffredinol, os oes potensial i'ch polisi effeithio ar bobl, bydd yn effeithio mewn rhyw ffordd ar siaradwyr Cymraeg, ac felly ar y Gymraeg ei hun.

1. Rhif cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (i'w lenwi gan Dîm Safonau'r Gymraeg, ebost: [Safonau.Standards@llyw.cymru](mailto:Safonau.Standards@llyw.cymru)):

**Rhif Clirio: 03/08/2018**

2. A yw'r cynnig yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – Cymraeg 2050 – Miliwn o siaradwyr a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2017-2021?

Nac oes, nid oes cysylltiad amlwg rhwng y cynnig hwn a strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg.

3. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac esboniwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r sefyllfa o ran y Gymraeg:

Nid oes effeithiau cadarnhaol na negyddol ar y Gymraeg yn sgil hyn. Prif nod y cynnig yw sicrhau bod plentyn o oedran ysgol gorfodol yn cael addysg amser llawn effeithlon sy'n addas i'w oedran, ei allu ac unrhyw anghenion arbennig sydd ganddo, drwy fynychu'r ysgol yn rheolaidd neu drwy drefniant arall.

Fodd bynnag, mae yna 388 o ysgolion cyfrwng Cymraeg yng Nghymru<sup>14</sup>. O'r ysgolion hyn, mae 48% mewn 3 awdurdod lleol - Gwynedd, Sir Gaerfyrddin ac Ynys Môn, lle mae cyfanswm o 193,616 yn siarad Cymraeg<sup>15</sup>. Mae'r nifer hwn yn 51% o gyfanswm poblogaeth y 3 awdurdod lleol<sup>16</sup>. Rydym yn cydnabod y gallai'r plant hynny sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref nad ydynt yn derbyn unrhyw addysg drwy'r Gymraeg gael eu dal yn ôl rhag bod yn rhan o'r gymuned leol, a bywyd cymdeithasol a diwylliannol y gymuned Gymraeg ehangach.

Wrth ddatblygu'r polisi, bydd angen cydgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid allweddol, a hynny yn Gymraeg. Gallai terminoleg yn y maes hwn fod yn gymhleth, felly fe drafodwn y derminoleg Gymraeg gyda'r rhanddeiliaid i sicrhau ei bod yn ddealladwy ac yn ystyried amrywiaethau rhanbarthol.

Bydd yr ymgynghoriad ffurfiol yn cychwyn ar 29 Gorffennaf 2019 ac yn para am 12 wythnos. Bydd dogfennau'r ymgynghoriad, gan gynnwys fersiynau hawdd i'w darllen a fersiynau i bobl ifanc, ar gael yn ddwyieithog ar wefan Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chopïau caled dwyieithog. Caiff digwyddiadau cyhoeddus a digwyddiadau i randdeiliaid, oll yn ddwyieithog, eu cynnal ledled Cymru yn 2019 hefyd.

Yn ogystal â chwestiynau manwl am y cynnig, bydd yr ymgynghoriad yn cynnwys y cwestiwn gorfodol am sut gallai'r cynnig effeithio ar y Gymraeg. Nid oes unrhyw effeithiau negyddol wedi'u nodi hyd yma.

Nid oes unrhyw effeithiau penodol ar y Gymraeg wedi'u nodi, ond caiff hyn ei ystyried ymhellach fel rhan o'r broses ymgynghori.

#### ♦ ***Sut byddwch yn gwybod os yw eich polisi yn llwyddiant?***

Deddfwriaeth y DU ynghylch addysg yn y cartref yw un o'r systemau sy'n cael eu rheoleiddio leiaf yn Ewrop. Bydd cryfhau'r polisi a'r fframwaith deddfwriaethol o ran addysg yn y cartref yn helpu awdurdodau lleol i fynd ati mewn ffordd fwy strategol i gynllunio a darparu cymorth i gymunedau sy'n addysgu yn y cartref. Bydd yn darparu data mwy cywir i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ar nifer y plant sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref ac yn ffordd o weld patrymau sy'n datblygu. Diben hyn yw cefnogi hawl plant i gael addysg, cael rhoi eu barn a chael eu diogelu, a pharchu hawliau plant sydd, am mai plant ydynt, yn llai abl i amddiffyn yr hawliau hynny.

<sup>14</sup><https://gweddill.gov.wales/statistics-and-research/address-list-of-schools/?skip=1&lang=cy>

<sup>15</sup><https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/Welsh-Language/WelshSpeakers-by-LA-BroaderAge-2001And2011Census>

<sup>16</sup><https://stats.cymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/populationestimates-by-localauthority-year>





Mae'r ddogfen hon  
hefyd ar gael yn  
Saesneg. This  
document is also  
available in English.

**OGL** WG35754 © Hawlfraint y Goron 2018